## RHAN 5 – CODAU A PHROTOCOLAU

---

## PROTOCOL AR GYFER GRWPIAU HOLLBLEIDIOL Y CYNGOR

### 1. Diben

Diben Grŵp Hollbleidiol yn y Cyngor yw rhoi cyfleoedd i drafod a hyrwyddo materion penodol yn rhan o flaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth y Cyngor a chynyddu cyfleoedd i Aelodau Anweithredol gyfrannu wrth ddatblygu polisïau.

### 2. Testun

Mae'n rhaid i destun Grŵp Hollbleidiol yn y Cyngor fod yn berthnasol i'r pwnc y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano neu i swyddogaeth yr aelodau neu i ddatblygiad aelodau.

### 3. Pwerau / Swyddogaethau

Ni fwriedir i Grŵp Hollbelidiol yn y Cyngor fod ag unrhyw bwerau penderfynu, ond caiff (os yw'n dymuno) wneud awgrymiadau neu argymhellion drwy lythyr i Aelod Cabinet perthnasol neu i Gadeirydd Pwyllgor; neu geisio sicrhau dadl yn y Cyngor drwy Gynnig a hybir gan grŵp pleidiol. (Cyfrifir unrhyw Gynnig o'r fath yn un o Gynigion a ddyrennir i'r grŵp pleidiol perthnasol).

### 4. Aelodaeth

(i) Isafswm nifer yr aelodau mewn Grŵp Hollbleidiol yn y Cyngor fydd pum aelod.

(ii) Mae'n rhaid i'r aelodaeth fod yn agored i bob aelod o bob grŵp pleidiol, gan gynnwys i Aelodau Annibynnol.

(iii) Bydd pob Grŵp Hollbleidiol yn y Cyngor yn cynnwys aelodau o fwy nag un blaid.

(iv) Dim ond aelodau Cyngor Caerdydd sy'n agored i aelodau Cyngor Caerdydd, er y gellir gwahodd cynrychiolwyr allanol ac unigolion i gyfarfodydd Grwpiau Hollbleidiol yn y Cyngor fel tystion neu siaradwyr.

### 5. Gweithdrefn

(i) Mae'n rhaid i aelodau sy'n cynnig sefydlu Grŵp Hollbleidiol yn y Cyngor hysbysu'r Swyddog Monitro fel y gall y Grŵp gael ei gynnwys ar Restr Grwpiau Hollbleidiol y Cyngor.

(ii) Mae'n rhaid i bob Grŵp Hollbleidiol yn y Cyngor gynnal cyfarfodydd o leiaf teirgwaith bob blwyddyn.

(iii) Os yw'r Grŵp Hollbleidiol yn y Cyngor yn dymuno codi unrhyw faterion yn ffurfiol, caiff wneud hyn drwy ysgrifennu at y deiliad portffolio Cabinet perthnasol neu at Gadeirydd Pwyllgor.

(iv) Mae'n rhaid i bob Grŵp Hollbleidiol yn y Cyngor greu adroddiad blynyddol i'w ddosbarthu i holl aelodau'r Cyngor (ond nid i'w drafod yng Nghyfarfod Llawn y Cyngor).

(v) Ynglŷn â phob agwedd arall, bydd gweithdrefn a rheolaeth y cyfarfodydd yn fater i'r Aelodau.

(vi) Bydd y cymorth gan swyddogion ar gyfer cyfarfodydd Grwpiau Hollbleidiol y Cyngor yn gyfyngedig i gadw ystafelloedd am gyfarfodydd, oherwydd cyfyngiadau oran adnoddau, ac ni fydd yn cynnwys clercio nac unrhyw gymorth gweinyddol arall (megis cynllunio agendau neu wneud cofnodion).

Bydd swyddogion, os rhoddir hysbysiad rhesymol a bod adnoddau yn caniatáu, yn rhoi atebion ysgrifenedig i ymholiadau ffeithiol a godir gan Grŵp Hollbleidiol yn y Cyngor drwy'r system ymholiadau aelodau. Dylid codi materion polisi gyda'r Aelod Cabinet perthnasol. Ni fydd yn ofynnol i swyddogion fynychu cyfarfod Grŵp Hollbleidiol yn y Cyngor.

(vii) Nid yw'r hawliau statudol i fynediad cyhoeddus at gyfarfodydd a gwybodaeth (o dan Ran VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) yn berthnasol i gyfarfodydd Grŵp Hollbleidiol yn y Cyngor.